

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

44/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

26/07/2017

Gwerthuso'r Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru): Arolwg Staff GIG Cymru Cam 2



Gwerthuso'r Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru): Staff GIG Cymru Cam 2

GfK UK Ltd

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn
Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0090

E-bost: ian.jones006@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol	2
1.1	Crynodeb o'r canfyddiadau	2
1.2	Ymwybyddiaeth a chefnogaeth.....	2
1.3	Gwybodaeth am y newid i'r system rhoi organau	3
1.4	Ateb cwestiynau.....	3
1.5	Yr effaith ar y swydd	4
2	Cyflwyniad.....	5
2.1	Cefndir	5
2.2	Dyluniad yr ymchwil	6
2.3	Holiadur	7
2.4	Ymgysylltu â Byrddau Iechyd.....	7
2.5	Gwaith maes	8
2.6	Dadansoddi a phwysoli	8
2.7	Nodiadau ar ddarllen yr adroddiad hwn	9
3	Ymwybyddiaeth o'r newid i'r system rhoi organau a chefnogaeth i'r newid	10
3.1	Ymwybyddiaeth o'r newid i'r system rhoi organau	10
3.1.1	Cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth	11
3.1.2	Bwriadau personol	13
3.2	Wedi trafod â'r teulu.....	14
3.3	Gwybodaeth am newidiadau i'r system cydsynio i roi organau	15
3.3.1	Gwybodaeth am rôl y teulu.....	16
3.4	Agweddau tuag at y system newydd o gydsynio i roi organau.....	18
3.5	Ateb cwestiynau.....	19
3.6	Ffynonellau o wybodaeth	21
3.7	Yr effaith ar eu swydd	22
4	Casgliadau ac Ystyriaethau	25
	Casgliadau.....	30

Atodiad A – Holiadur Cam 2

Atodiad B – Llythyr sicrwydd

1 Crynodeb Gweithredol

Ar 1 Rhagfyr 2015, daeth y Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) i'w llawn rym, gan gyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer cydsynio i roi organau a meinwe. Yng ngoleuni'r newid i'r system rhoi organau a meinwe, comisiynwyd GfK gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil er mwyn helpu i ddeall barn staff y GIG am y newid. Roedd amcanion y prosiect, sy'n rhan o raglen ymchwil a gwerthuso ehangach, fel a ganlyn:

- Deall agweddau, disgwyliadau a lefel y wybodaeth ynglŷn â'r system newydd
- Nodi pa staff y gallai'r system newydd effeithio ar eu gwaith
- Mesur newidiadau dros amser yn safbwyntiau staff y GIG a'r effaith ddisgwyliedig ar eu gwaith
- Nodi newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf
- Nodi unrhyw broblemau annisgwyl a achoswyd gan y newid i'r system feddal o optio allan

Cynhaliwyd arolwg llinell sylfaen gyda staff ym mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 (h.y. cyn i'r newid i'r system gael ei roi ar waith) a chynhaliwyd ail don o waith maes rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Ionawr 2017 (h.y. ar ôl i'r gyfraith ddod i rym).

Cynhaliwyd y gwaith maes drwy Gyfweliadau dros y Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur (CATI) a lluniwyd holiaduron gan GfK mewn ymgynghoriad agos â Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y cyfweliadau â staff y GIG yn eu gweithle.

Cafodd y data eu pwysoli ar y cam dadansoddi er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau yn gynrychioliadol o holl staff y GIG yn y galwedigaethau a gynhwyswyd yn yr arolwg, ac er mwyn sicrhau bod rhanbarthau Byrddau Iechyd yn unol â'r proffil cenedlaethol. Cymhwyswyd yr un pwysoliad at y ddwy don.

1.1 Crynodeb o'r canfyddiadau

Yn gyffredinol, roedd lefelau ymwybyddiaeth o'r newid i'r system rhoi organau a chefnogaeth iddo yn uchel a gwelwyd cynnydd sylweddol ers arolwg Cam 1.

1.2 Ymwybyddiaeth a chefnogaeth

Ar nodyn cadarnhaol, mae lefel yr ymwybyddiaeth o'r newid i'r system cydsynio i roi organau wedi cynyddu ers Cam 1. Dywedodd y mwyafrif helaeth o staff eu bod yn ymwybodol o'r newid (96% C2 o gymharu ag 89% C1). Mae lefelau ymwybyddiaeth wedi cynyddu'n benodol ymhlith meddygon teulu (100% C2, o gymharu â 93% C1) a nyrsys ysbyty nad oeddent yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (98% C2 o gymharu ag 86% C1).

Mae cefnogaeth ymhlith staff y GIG i'r newid deddfwriaethol wedi cynyddu hefyd gyda mwy na phedwar o bob pump (85%) o blaid y newid bellach (71% C1). Mae cyfran y staff a deimlai fod angen mwy o wybodaeth arnynt i benderfynu a oeddent yn cefnogi'r newid deddfwriaethol wedi haneru (22% C1 o gymharu â dim ond 11% C2).

Holwyd staff ynglŷn â'u statws personol presennol mewn perthynas â rhoi organau a'r newid i'r system gydsynio. Dim ond 3% a ddywedodd eu bod wedi cofrestru i optio allan h.y. ni fyddent yn rhoi organau, ond dywedodd bron chwarter eu bod yn ystyried eu hopsiynau neu nad oeddent wedi meddwl am y peth.

Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd pedwar o bob pump (80%) o staff eu bod wedi trafod eu penderfyniad ynglŷn â rhoi organau ag aelod o'r teulu ar ryw adeg.

1.3 Gwybodaeth am y newid i'r system rhoi organau

Ynghyd â'r cynnydd o ran ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r newid deddfwriaethol, mae lefelau o wybodaeth wedi'i hunanraddio wedi cynyddu hefyd. Dywedodd pedwar o bob pump (80%) yn ystod Cam 2 eu bod yn gwybod o leiaf eithaf tipyn am y newid i'r system rhoi organau (o gymharu â 57% yn y don gyntaf). Roedd y cynnydd mewn lefelau gwybodaeth wedi'i hunanraddio yn arbennig o nodedig ymhlith meddygon teulu (79% C2 o gymharu â 51% C1); nyrsys a meddygon ysbyty nad oeddent yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (78% C2 o gymharu â 39% C1 ar gyfer nyrsys a 77% C2 o gymharu â 43% C1 ar gyfer meddygon).

Mae agweddau tuag at y newid i'r system rhoi organau wedi parhau'n gadarnhaol ac, o gymharu â'r don flaenorol, yn sefydlog. Cytunodd mwy na phedwar o bob pump y bydd y system feddal newydd o optio allan i Gymru yn arwain at achub mwy o fywydau (85%) a bod y system yn cadw'r rhyddid i ddewis oherwydd gall unrhyw un optio allan o roi organau os dymunant (93%). Fodd bynnag, fel yn achos y don gyntaf, meddygon ysbyty yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys oedd â'r gyfran isaf yn cytuno y bydd y system feddal newydd o optio allan i Gymru yn arwain at achub mwy o fywydau (73% o gymharu ag 86% ymhlith grwpiau staff eraill).

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod rhai aelodau o staff yn camddehongli neges y system feddal o optio allan o ran rôl y teulu o bosibl. Roedd gostyngiad yng nghyfran y staff a oedd yn meddwl y bydd gan y teulu rôl i'w chwarae yn y broses rhoi organau (84% C2 o gymharu â 92% C1) ac os yw'r teulu yn ofidus ynglŷn â'r penderfyniad i roi organau, na fydd clinigwyr yn bwrw ymlaen â'r broses (58% C2 o gymharu â 74% C1).

Fodd bynnag, wedi dweud hynny ceir tystiolaeth ddangosol sy'n awgrymu nad yw llythyren y gyfraith yn cael ei dilyn yn gyfan gwbl mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ar lawr gwlad. Ymhlith meddygon ysbyty a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys mae'r gyfran a ddywedodd ei bod yn wir y gall y teulu ddiystyru dymuniadau'r ymadawedig wedi cynyddu o chwarter (28%) i hanner (50%) – noder mai canfyddiad dangosol yw hwn oherwydd y meintiau sylfaen bach.

1.4 Ateb cwestiynau

Mae lefelau hyder wrth ateb cwestiynau gan y cyhoedd a chleifion ynglŷn â'r system newydd o roi organau wedi cynyddu. Yn gyffredinol, dywedodd tri chwarter y staff (75%) eu bod o leiaf yn eithaf hyderus wrth ateb cwestiynau (o gymharu â 62%). Mae cyfran y staff a ddywedodd eu bod yn hyderus iawn wedi dyblu dros y tair blynedd (o 6% C1 i 12% C2).

Fel y gwelwyd yn ystod Cam 1, cynyddodd hyder wrth i wybodaeth gynyddu, gyda phedwar o bob pump o'r rhai a ddywedodd eu bod yn gwybod o leiaf eithaf tipyn am y newid i'r system cydsynio i roi organau yn dweud eu bod yn hyderus wrth ateb cwestiynau (83%, o gymharu â 46% nad oeddent yn gwybod rhyw lawer neu nad oeddent yn gwybod dim byd o gwbl).

Mae cyfran y staff a ddywedodd y byddent yn cysylltu ag aelod o'r tîm/staff rhoi organau, pe bai claf neu aelod o'r cyhoedd am siarad â rhywun am y broses rhoi organau, wedi cynyddu i bron dwy ran o dair (64% C2, o gymharu â 54%). Fel y gwelwyd yn yr arolwg cyntaf, staff mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys oedd fwyaf tebygol o sôn am gysylltu â'r tîm/staff rhoi organau (90% ar gyfer meddygon a nyrsys arbenigol).

Ymhlith y ffynonellau o wybodaeth am roi organau a grybwyllwyd amlaf roedd gwefannau/lleinellau cymorth (47%), y tîm/staff rhoi organau (26%) a'r Bwrdd Iechyd Lleol (mewnrwyd, cylchlythyr) (21%).

1.5 Yr effaith ar y swydd

Nawr bod y newid i'r system rhoi organau wedi cael ei roi ar waith bu cynnydd sylweddol yng nghyfran y staff a ddywedodd nad oedd y newid wedi effeithio ar eu swydd (88% C2 o gymharu â 57% yn ystod C1). Ymhlith yr aelodau hynny o staff yr oedd y newid wedi effeithio arnynt, y mater a grybwyllwyd amlaf oedd yr amser a dreulir yn ateb cwestiynau gan gleifion a theuluoedd cleifion.

2 Cyflwyniad

2.1 Cefndir

Mae trawsblannu organau wedi dod yn un o'r triniaethau meddygol mwyaf llwyddiannus oherwydd gall un rhoddwr organau yn unig achub neu wella hyd at naw o fywydau drwy roi ei organau, a llawer mwy drwy roi ei feinweoedd. Mae arolygon wedi dangos ers amser bod hyd at naw o bob deg oedolyn yng Nghymru a gweddill y DU o blaid rhoi organau, ond nid yw nifer y bobl ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau mewn gwirionedd yn adlewyrchu'r gefnogaeth eang hon¹. Ychydig iawn o bobl sy'n marw o dan amgylchiadau lle y gallant fod yn rhoddwyr cymwys ac felly mae'n hollbwysig achub ar bob cyfle i ddod o hyd i roddwyr addas.

O dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol (2004) ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a'r Ddeddf Meinweoedd Dynol (2006) ar gyfer yr Alban, er mwyn i organau fod ar gael i'w trawsblannu, mae'n rhaid i'r unigolyn dan sylw gydsynio i hynny drwy system 'optio i mewn'. Mae'r Deddfau hyn yn tybio nad yw unigolyn am roi ei organau oni bai ei fod wedi datgan yn benodol ei fod am wneud hynny, er enghraifft drwy lofnodi'r Gofrestr Rhoddwyr Organau neu gario cerdyn rhoddwr. Unwaith y caiff cydsyniad optio i mewn ei gadarnhau, anogir perthnasau i gefnogi dymuniadau'r ymadawedig, ac fe'u hysbysir nad oes ganddynt hawl gyfreithiol i'w nacáu. Os nad oes cofnod o ddymuniadau'r ymadawedig, gall ei deulu neu unigolyn cymwys arall gytuno i roi organau neu wrthod gwneud hynny.

Er mwyn cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu, penderfynodd Llywodraeth Cymru newid y system rhoi organau i un lle y tybir bod cydsyniad wedi'i roi oni bai bod yr unigolyn dan sylw wedi 'optio allan'. Er mwyn gwneud y newid hwn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) ar gyfer rhoi organau a meinweoedd ar 3 Rhagfyr 2012. Cytunwyd ar egwyddorion cyffredinol y Bil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Ebrill 2013 ac fe'i pasiwyd gyda gwelliannau ar 2 Gorffennaf 2013. Yna, cynhaliwyd ymgyrch codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd dros ddwy flynedd i hysbysu pobl yng Nghymru am y newid i'r system a'u dewisiadau oddi tani. Daeth y newid i'r system rhoi organau yn gyfraith gwlad ym mis Rhagfyr 2015.

Prif nodau'r Ddeddf yw hyrwyddo trawsblannu drwy gynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w rhoi, a newid y ffordd y caiff cydsyniad ei roi. Mae'n nodi bod trawsblannu yn gyfreithlon, os y'i gwneir yng Nghymru, pan fo cydsyniad datganedig neu dybiedig wedi'i roi. O dan y system hon, mae tri dewis ar gael:

1. cofrestru dymuniad i fod yn rhoddwr drwy optio i mewn yn benodol a lofnodi'r gofrestr rhoddwyr organau newydd; neu
2. cofrestru dymuniad i beidio â bod yn rhoddwr drwy optio allan o'r gofrestr rhoddwyr organau newydd yn benodol; neu
3. gwneud dim byd a dewis bod eich cydsyniad wedi'i dybio.

O dan system 'optio allan' neu gydsyniad tybiedig, tybir bod pob un 18 oed neu'n hŷn sydd wedi byw yng Nghymru ers o leiaf 12 mis, ac sy'n meddu ar y galluedd meddyliol gofynnol, wedi rhoi eu cydsyniad i roi organau oni bai eu bod wedi optio allan yn benodol.

Mae'r system yng Nghymru yn seiliedig ar system 'feddal' o optio allan yn hytrach na system 'galed'. O dan system galed o optio allan, ni fyddai teuluoedd yn cael eu holi am roi

¹ Gweler er enghraifft

<http://www.nhs.uk/to2020/resources/ThepotentialimpactofanoptoutsystemfororgandonationintheUK.pdf>

organau pe bai'r cydsyniad naill ai wedi'i ddatgan neu wedi'i dybio. Mewn system feddal o optio allan, bydd teuluoedd a ffrindiau yn rhan o drafodaethau a gallant roi gwybodaeth i ddangos nad oedd yr ymadawedig yn dymuno bod yn rhoddwr.

Mae Cod Ymarfer sy'n ategu'r ffordd y gweithredir y system ar waith, gan gynnwys ymdrin â materion trawsffiniol a all godi am fod Cymru yn gweithredu system wahanol i weddill y DU.

Er mwyn i Lywodraeth Cymru ddeall safbwyntiau staff y GIG, comisiynwyd ymchwil yn 2013 i GfK olrhain safbwyntiau ac agweddau mewn perthynas â'r newid i'r system cydsynio i roi organau. Mae'r elfen hon o raglen ymchwil ehangach yn ymdrin â safbwyntiau staff y GIG yn unig a'i nod yw:

- Deall agweddau, disgwyliadau a lefel y wybodaeth ynglŷn â'r system newydd
- Nodi pa staff y gallai'r system newydd effeithio ar eu gwaith
- Mesur newidiadau dros amser yn safbwyntiau staff y GIG a'r effaith ddisgwyliedig ar eu gwaith
- Nodi newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i weithredu'r Bil
- Nodi unrhyw broblemau annisgwyl a achoswyd gan y newid i'r system feddal o optio allan

Cyhoeddwyd adroddiad ar yr arolwg llinell sylfaen ymhlith staff y GIG yn 2014 ac mae'r adroddiad newydd hwn yn cynnwys data o'r ail arolwg, a gynhaliwyd yn 2016-17 (sy'n gwneud cymariaethau â'r astudiaeth wreiddiol lle y bo modd).

2.2 Dyluniad yr ymchwil

Roedd y gynulleidfa darged ar gyfer yr ymchwil yn cynnwys staff y GIG mewn galwedigaethau penodol a oedd yn gweithio i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rhestrir y galwedigaethau a gynhwyswyd yn yr ymchwil isod a phennwyd targedau ar gyfer pob grŵp.

- Meddygon teulu
- Meddygon ysbyty a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys – roedd 'Uwch' feddygon a meddygon 'lau' wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn
- Meddygon ysbyty nad oeddent yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys – roedd tua hanner yn feddygon 'lau' ar radd Cofrestrydd Arbenigol neu'n is, ac roedd hanner yn 'Uwch' feddygon ar raddau uwch
- Nyrsys Ysbyty Arbenigol sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys
- Nyrsys ysbyty nad oeddent yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys: roedd tua hanner yn nyrsys arbenigol (nid mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys) ac roedd hanner yn nyrsys ward 'cyffredinol'
- Arweinwyr Clinigol: gan gynnwys Cyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr Nyrsio a Chyfarwyddwyr Clinigol

Darparwyd y rhestrau o gysylltiadau ar gyfer yr ymchwil gan Binleys sy'n dal rhestrau helaeth o weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru ac sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan GfK ar gyfer ymchwil ymhlith staff y GIG ledled y DU. Roedd rhestrau o enwau ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau staff ac eithrio nyrsys ward cyffredinol a rhai meddygon ysbyty iau. Cafodd y grwpiau olaf hyn eu samplu fel a ganlyn:

- Er mwyn siarad â nyrsys ward cyffredinol, darparodd Binleys rifau derbynfeydd cyffredinol ysbytai a ffoniodd cyfwelwyr y rhifau hyn gan ofyn i gael eu cysylltu â ward.
- Oherwydd symudedd Meddygon Ysbyty ar raddau Sylfaen 1 a Sylfaen 2, nid yw Binleys yn dal rhestrau o enwau meddygon ar y graddau hyn. Ffoniodd cyfwelwyr GfK rifau cyffredinol ysbytai gan ofyn i gael eu cysylltu â ward. Wrth siarad â rhywun ar y ward, gofynnwyd am siarad â meddyg ar radd Sylfaen 1 neu Sylfaen 2 (a elwir yn Swyddogion Preswyl neu Uwch Swyddogion Preswyl).

Dengys Tabl 1 nifer y cyfweiliadau a gwblhawyd ym mhob galwedigaeth.

Tabl 1: Sampl a gyfwelwyd		
Galwedigaeth	Cam 1 (Gaeaf 13-14)	Cam 2 (Gaeaf 16-17)
Meddygon teulu	57	55
Meddygon Ysbyty sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys	28	33
Meddygon Ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys	61	47
Nyrsys ysbyty arbenigol sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys	42	41
Nyrsys ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys	56	54
Arweinwyr Clinigol	36	38
<i>Cyfanswm</i>	<i>280</i>	<i>268</i>

2.3 Holiadur

Fel yn achos yr arolwg cychwynnol, datblygwyd yr holiadur gan GfK mewn ymgynghoriad agos â Llywodraeth Cymru. Er mwyn cael cyfle i gymharu safbwyntiau staff y GIG a'r cyhoedd ynglŷn â'r newidiadau i'r system cydsynio i roi organau, cafodd cwestiynau o'r arolwg o agweddau'r cyhoedd² eu cynnwys yn yr holiadur ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

Roedd yr holiadur yn defnyddio rhestrau o ymatebion wedi'u rhag-godio yn bennaf, gyda chyfle i gasglu manylion pellach drwy opsiynau ateb "arall" mewn rhai cwestiynau. Cafodd un cwestiwn penagored ei gynnwys yn yr arolwg.

2.4 Ymgysylltu â Byrddau Iechyd

Cysylltwyd â phob Bwrdd Iechyd cyn dechrau ar y gwaith maes, er mwyn eu hysbysu am yr arolwg a gofyn am eu cymorth wrth roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg. Anfonwyd llythyr cychwynnol at bob Cyfarwyddwr Meddygol gan Lywodraeth Cymru ac wedyn cysylltodd GfK â'r adrannau cyfathrebu ym mhob Bwrdd Iechyd.

²Ar gael yma: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy>

2.5 Gwaith maes

Cynhaliwyd gwaith maes dros y ffôn gan ddefnyddio dull Cyfweld Dros y Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur (CATI) a chynhaliwyd cyfweiliadau rhwng y dyddiadau canlynol:

- Cam 1: 4 Rhagfyr 2013 a 31 Ionawr 2014.
- Cam 2: 7 Tachwedd 2016 a 31 Ionawr 2017

Cynhaliwyd cyfweiliadau o ganolfan cyfweld dros y ffôn GfK – mae'r cwmni yn aelod o'r Cynllun Rheoli Ansawdd Cyfwelwyr ac roedd pob cyfwelydd wedi cael ei hyfforddi'n llawn, ei friffio a'i fonitro.

Roedd llythyr gan Lywodraeth Cymru ar gael i'w e-bostio at ymatebwyr a ofynnodd am ragor o sicrwydd cyn cwblhau'r cyfweiliad. Mae copi o'r llythyr wedi'i gynnwys yn atodiad B.

2.6 Dadansoddi a phwysoli

Er mwyn gallu dadansoddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar wahân yn ôl rôl, cynhaliwyd isafswm nifer o gyfweiliadau ym mhob galwedigaeth. Yna pwysolwyd y data i roi amcangyfrif o safbwyntiau ac ymwybyddiaeth ymhlith holl staff y GIG yng Nghymru yn y galwedigaethau a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil. Gyda gorsamplu ymhlith rhai grwpiau staff, byddai maint y sampl wirioneddol yn cael ei leihau gryn dipyn gan y broses bwysoli.

Pwysolwyd y data fel a ganlyn:

- Ailgydbwyso cyfran y staff mewn galwedigaethau gwahanol yn y sampl, yna
- Bwysoli yn ôl rhanbarth Bwrdd Iechyd.

Roedd y pwysoliadau hyn yn seiliedig ar ddata ar nifer y gweithlu a ddaw o wefan StatsCymru ac fe'u cymhwyswyd at y ddwy don. Dangosir y cyfrannau heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli yn Nhabl 2.

Tabl 2: Proffiliau wedi'u pwysoli a heb eu pwysoli sampl o Staff GIG Cymru yn ôl math o staff a Bwrdd Iechyd								
	Cam 1				Cam 2			
	Heb eu pwysoli		Wedi'u pwysoli		Heb eu pwysoli		Wedi'u pwysoli	
	%	N	%	N	%	N	%	N
Meddygon teulu	57	20	15	5	55	21	15	6
Meddygon ysbyty (gan gynnwys Arweinwyr Clinigol)	119	43	51	18	109	41	40	15
Nyrsys ysbyty (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Nyrsio)	102	34	214	76	104	39	213	79
Bwrdd Iechyd								
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	53	19	55	20	52	19	53	20
Aneurin Bevan	48	17	49	18	54	20	46	17
Prifysgol Betsi Cadwaladr	57	20	56	20	59	22	54	20
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	44	16	51	18	36	13	49	18
Cwm Taf	27	10	25	9	27	10	24	9
Hywel Dda	43	15	35	13	38	14	34	13
Addysgu Powys	8	3	8	3	8	3	8	30

Gwnaeth effaith ystadegol y pwysoli leihau maint y sampl wirioneddol ar gyfer cyfanswm y sampl i 154 yn ystod Cam 1 a 152 yn ystod Cam 2. Er bod effaith y pwysoliad hwn yn ymddangos yn fawr, roedd yr angen i strwythuro'r sampl fel y'i dangosir uchod yn golygu y disgwylid effeithiau pwysoli o'r maint hwn.

2.7 Nodiadau ar ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r pwyntiau canlynol yn esbonio'r ffordd y mae'r canlyniadau wedi cael eu trafod yn yr adroddiad hwn.

- Mae'r meintiau sylfaen ar gyfer rhai o'r grwpiau galwedigaethol yn fach ac felly'n anghymwys ar gyfer profi arwyddocâd. Felly rydym wedi cynnwys gwahaniaethau yn yr adroddiad sydd ar 'ymylon arwyddocâd' (sef cyfyng hyder o 95%).
- Er mwyn nodi arwyddocâd neu ar ymylon arwyddocâd rydym wedi defnyddio'r symbolau canlynol
 - ↑ gwahaniaeth arwyddocaol cadarnhaol rhwng camau
 - ↓ gwahaniaeth arwyddocaol negyddol rhwng camau
 - ↔ gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu â'r cyfartaledd.

3 Ymwybyddiaeth o'r newid i'r system rhoi organau a chefnogaeth i'r newid

3.1 Ymwybyddiaeth o'r newid i'r system rhoi organau

Yn ystod Cam 2 darllenwyd disgrifiad o'r newid i'r system rhoi organau (a ddangosir isod) yn uchel i staff a gofynnwyd iddynt a oeddent yn ymwybodol o'r newid hwn cyn y cyfweiliad.


"Pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddf i newid y system rhoi organau i system 'feddal o optio allan' a ddaeth i rym ar ddiwedd 2015. O fis Rhagfyr 2015 mae pobl wedi cael cyfle i 'optio allan' o roi organau yn ffurfiol. Os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny, ar ôl cael y cyfle, yna caiff hyn ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac un y caiff teuluoedd eu hannog yn sensitif i'w dderbyn. Mae'r gyfraith yn caniatáu i aelodau'r teulu wrthwynebu rhoi organau os ydynt yn gwybod na fyddai'r ymadawedig wedi dymuno rhoi cydsyniad. Mae'r cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr yn parhau i'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny."

Ar nodyn cadarnhaol, mae ymwybyddiaeth gyffredinol o'r newid i'r system rhoi organau wedi cynyddu'n sylweddol (o 89% yn ystod Cam 1 i 96% yn ystod Cam 2) ac mae bellach yn cwmpasu bron bob aelod o staff y GIG. Mae lefelau ymwybyddiaeth wedi cynyddu bron ym mhob grŵp staff ac eithrio arweinwyr clinigol, sy'n aros ar yr un lefel uchel iawn a welwyd yn ystod Cam 1.

Er y gellir gweld cynnydd mewn lefelau ymwybyddiaeth yn gyffredinol (Siart 1 drosodd), mae meintiau sylfaen bach rhai o'r grwpiau staff yn golygu nad yw rhai o'r gwahaniaethau yn ystadegol arwyddocaol; fodd bynnag, wedi dweud hynny, gallwn ystyried y cynnydd hwn yn duedd ddangosol. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn lefelau ymwybyddiaeth ymhlith:

- Meddygon teulu (93% C1 o gymharu â 100% C2)
- Nyrsys ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (86% C1 o gymharu â 98% C2)
- Meddygon ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (79% C1 o gymharu â 91% C2)

Siart 1: Ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau



A1 Cyn heddiw, a oeddech yn ymwybodol o'r newid hwn i'r system cydsynio i roi organau yng Nghymru?


Sylfaen: Pob aelod o staff (C1: 280, C2: 268), Meddygon teulu (C1: 57; C2: 55), Meddygon ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 28; C2: 33), Meddygon ysbyty eraill (C1: 61; C2: 47), Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 42; C2: 41), Nyrsys ysbyty eraill (C1: 56; C2: 54), Arweinwyr clinigol (C1: 36; C2: 38)

3.1.1 Cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth

Mae lefel y gefnogaeth i'r newid i'r system rhoi organau wedi cynyddu'n sylweddol ers arolwg Cam 1. Yn ystod Cam 1, dywedodd saith o bob deg aelod o staff y GIG (71%) eu bod o blaid y newid deddfwriaethol ac roedd hyn wedi cynyddu i fwy na phedwar o bob pump (85%) erbyn Cam 2. Yn galonogol ddigon, mae nifer y staff a deimlai fod angen mwy o wybodaeth arnynt i benderfynu sut roeddent yn teimlo am y newid i'r system wedi haneru ers Cam 1 (o 22% C1 i 11% C2).

Er bod newid cadarnhaol sylweddol wedi'i nodi rhwng camau 1 a 2 ymhlith staff yn gyffredinol; ar lefel grŵp staff, oherwydd meintiau sylfaen, nid oedd y rhan fwyaf o'r newidiadau rhwng y camau yn ystadegol arwyddocaol (gweler Siart 2).

Siart 2: % O blaid y newid deddfwriaethol yn ôl grŵp staff



B2. Rwy'n mynd i ddarllen rhai gosodiadau a wnaed gan bobl am roi organau. Hoffwn i chi ddweud wrthyf i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau.

Syllfaen: Pob aelod o staff (C1: 280, C2: 268), Meddygon teulu (C1: 57; C2: 55), Meddygon ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 28; C2: 33), Meddygon ysbyty eraill (C1: 61; C2: 47), Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 42; C2: 41), Nyrsys ysbyty eraill (C1: 56; C2: 54), Arweinwyr clinigol (C1: 36; C2: 38)

Gofynnwyd cwestiwn penagored i bob aelod o staff i weld a oedd ganddynt unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r system rhoi organau. Ar y cyfan, roedd y sylwadau ynglŷn â'r newid yn tueddu i fod yn gadarnhaol, gyda phwyslais ar achub bywydau. Roedd y sylwadau eraill yn tueddu i fod yn niwtral yn hytrach nag yn negyddol ac roeddent yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o gyfathrebu ynglŷn â'r newid.

Ceir enghreifftiau o'r sylwadau isod.

Sylwadau cadarnhaol:

- "Rwy'n credu ei fod yn newid cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n credu, er gwaethaf y polisi, y caiff sensitifrwydd y teulu ei ystyried o hyd."
- "Rwy'n gefnogol iawn. Rwy'n credu yr hoffai eithaf tipyn o bobl roi organau. Pan na fydd aelodau'r teulu yn gwybod am y peth yna gall fod yn anodd i feddygon drafod â nhw. Pan fydd wedi'i wneud ymlaen llaw mae'n cael gwared ar y pwysau. Mae'r system feddal o optio allan yn annog pobl i feddwl am y peth ac maen nhw'n gwybod bod angen iddyn nhw wneud rhywbeth os ydyn nhw am optio allan."
- "Rwy'n credu ei bod yn system dda iawn, dwi ddim yn meddwl bod pawb yn cytuno â hi ond rwy'n meddwl ei bod yn dda iawn. Rwyf wedi clywed ar y newyddion bod mwy o drawsblaniadau wedi bod o ganlyniad."
- "Rwy'n credu bod cydsyniad tybiedig gyda'r gallu i optio allan yn system dda oherwydd mae'n sicrhau bod mwy o organau ar gael."

Sylwadau niwtral a negyddol:

- "Mae angen iddyn nhw gyhoeddi mwy o wybodaeth fwy na thebyg."
- "Mae angen ychydig mwy o wybodaeth arna' i. Rwy'n teimlo y dylwn feddwl am y peth ond dwi ddim am ei wynebu mewn gwirionedd. Hoffwn wneud rhywbeth os bydd hynny'n helpu pobl."
- "Gwnaeth y Llywodraeth gamgymeriad mawr gyda'r newid cyfreithiol i system feddal o optio allan, yn enwedig o ystyried y nifer fach o roddwyr ychwanegol yr awgrymwyd y byddai'n eu sicrhau. Gallai'r cynnydd hwn yn nifer y rhoddwyr fod wedi cael ei gyflawni mewn ffyrdd eraill. Dywedon nhw y bydden nhw'n sicrhau 9 yn fwy o roddwyr y flwyddyn y gallen ni fod wedi'u sicrhau drwy ffyrdd eraill. Rwy'n credu bod tybio cydsyniad ar gyfer unrhyw driniaeth yn sarhad i ryddidau dinesig ac yn gosod cynsail peryglus o bosibl."
- "Mae'n dibynnu ar barodrwydd y teuluoedd i'w gefnogi. Gall problemau godi o hyd, hyd yn oed gyda'r system newydd. Mae angen addysgu'r teuluoedd ynglŷn â'r system oherwydd maen nhw'n gallu cynhyrfu gryn dipyn."


3.1.2 Bwriadau personol

Gofynnwyd i'r holl staff beth fyddent yn ei wneud o ran rhoi organau, nawr bod y system wedi'i chyflwyno. Yn gyffredinol, dywedodd bron hanner (46%) eu bod wedi cofrestru i optio i mewn, dywedodd traean (32%) na fyddent yn gwneud dim, gan eu bod yn fodlon i gydsyniad tybiedig fod yn gymwys a dywedodd pumed ran (19%) nad oeddent wedi meddwl am y peth neu eu bod yn dal i ystyried eu hopsiynau – roedd y gweddill (3%) wedi cofrestru i optio allan.

Cafodd yr opsiynau ateb i'r cwestiwn hwn eu newid ar gyfer Cam 2 er mwyn eu cymharu â'r data ar y cyhoedd ac felly nid ydym wedi cynnwys cymhariaeth â data Cam 1 yma.

Os ydym yn cymharu'r arolwg o staff â'r ymchwiliad gyda'r cyhoedd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2016, gallwn weld bod staff y GIG yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru i optio i mewn; mewn gwrthgyferbyniad, roedd y cyhoedd yn tueddu i ddweud eu bod yn fodlon i gydsyniad tybiedig fod yn gymwys (Siart 3).

Siart 3: Bwriadau personol



E1. Gan fod y system newydd o optio allan wedi'i chyflwyno bellach, p'un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch statws mewn perthynas â rhoi organau orau?

Sylfaen: Pob aelod o staff (268); Pob aelod o'r cyhoedd (1,007)* arolwg omnibws Beaufort Mawrth 2016


3.2 Wedi trafod â'r teulu

Cafodd cwestiwn newydd ei gynnwys yn ystod Cam 2 i ganfod a oedd staff y GIG wedi trafod eu penderfyniad ynghylch dod yn rhoddwr organau ag aelod o'r teulu. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o staff y GIG wedi trafod eu penderfyniad â'u teulu (80%). Gofynnwyd cwestiwn tebyg i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2016 a dywedodd tua chwech o bob deg (62%) eu bod wedi trafod eu penderfyniad o ran rhoi organau ar ôl eu marwolaeth ag aelod o'r teulu³.

Meddygon ysbyty nad oeddent yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (66%) oedd y grŵp staff lleiaf tebygol o fod wedi trafod eu penderfyniad â'u teulu (Siart 4).

Efallai nad yw'n syndod bod staff a ddywedodd eu bod yn gwybod o leiaf eithaf tipyn am y newid i'r system rhoi organau yn fwy tebygol o fod wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu o gymharu â staff a ddywedodd nad oeddent yn gwybod fawr ddim neu ddim o gwbl am y newid (85% o gymharu â 72% yn y drefn honno).

Siart 4: Wedi trafod penderfyniad ag aelod o'r teulu?



E2. A ydych erioed wedi trafod eich penderfyniad ynglŷn â dod yn rhoddwr organau ag aelod o'r teulu?

Sylfaen: Pob aelod o staff (280), Meddygon teulu (57), Meddygon ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (28), Meddygon ysbyty eraill (61), Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (42), Nyrsys ysbyty eraill (56), Arweinwyr clinigol (36); y cyhoedd (691)*

Arolwg omnibws Beaufort Mehefin 2016

³ Gofynnwyd y cwestiwn hwn o'r holl ymatebwyr yn arolwg staff y GIG – ond yn yr arolwg o'r cyhoedd doedd ymatebwyr a atebodd eu bod 'ddim wedi meddwl am y peth eto' neu 'ddim yn gwybod' ddim wedi eu cynnwys. Felly, mae'r ffigurau hyn yn ddangosol o'r gwahaniaethau rhwng staff y GIG a'r cyhoedd, ond nid ydynt yn cymharu'n union.


3.3 Gwybodaeth am newidiadau i'r system cydsynio i roi organau

Mae lefelau gwybodaeth wedi'i hunanraddio hefyd wedi cynyddu dros y tair blynedd rhwng camau 1 a 2; dros y cyfnod hwn bu cynnydd o fwy nag 20% yn nifer y staff a ddywedodd eu bod yn gwybod o leiaf eithaf tipyn am y newid i'r system rhoi organau (57% C1 o gymharu ag 80% C2).

Roedd y cynnydd mwyaf yng nghyfran y staff a ddywedodd eu bod yn gwybod o leiaf eithaf tipyn am y newid i'r system rhoi organau i'w weld ymhlith:

- meddygon teulu (79% C2 o gymharu â 51% C1)
- nyrsys ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (78% C2 o gymharu â 39% C1)
- meddygon ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (77% C2 o gymharu â 43% C1)

Siart 5: Gwybodaeth wedi'i hunanraddio am y newid i'r system



A2. Faint rydych yn ei wybod am y newidiadau i'r system cydsynio i roi organau yng Nghymru? A fydddech chi'n dweud ...
 Sylfaen: Pob aelod o staff a oedd yn ymwybodol o'r newid (C1: 217, C2: 259), Meddygon teulu (C1: 45; C2: 55), Meddygon ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 22; C2: 32), Meddygon ysbyty eraill (C1: 61; C2: 42), Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 42; C2: 35), Nyrsys ysbyty eraill (C1: 39; C2: 53), Arweinwyr clinigol (C1: 34; C2: 36)

3.3.1 Gwybodaeth am rôl y teulu


Er mwyn asesu a yw staff wedi deall rôl y teulu o ran rhoi organau o dan y system newydd pan nad yw'r ymadawedig wedi optio allan, gofynnwyd iddynt nodi a oedd pedwar gosodiad ynglŷn â rôl y teulu yn wir neu'n anwir (Siartiau 6 a 7). Roedd dau o'r gosodiadau yn wir ac roedd dau o'r gosodiadau yn anwir.

Gwir	Anwir
Os yw'r teulu yn ofidus ynglŷn â'r penderfyniad i roi organau, ni fydd clinigwyr yn bwrw ymlaen â'r broses	Ni fydd y teulu yn chwarae unrhyw rôl yn y broses rhoi organau
Gall y teulu roi tystiolaeth bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu rhoi ei organau ond nad oedd wedi mynd ati i gofrestru yn ystod ei fywyd	Gall y teulu ddiystyru dymuniadau'r ymadawedig

Ceir ychydig o dystiolaeth bod nifer fach o staff yn camddehongli bwriad y system feddal o optio allan o bosibl; gyda chyfran staff y GIG a oedd yn meddwl y byddai gan deulu'r ymadawedig rôl i'w chwarae o hyd yn y system newydd o gydsynio i roi organau yn gostwng i ychydig dros bedwar o bob pump (84%) yn ystod Cam 2 o 92% yn ystod Cam 1. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ymhlith meddygon teulu (78% anwir yn C2, o gymharu â 98% yn C1) ac mae'n awgrymu efallai bod angen mwy o gyfathrebu â meddygon teulu.

Nid oes unrhyw newid rhwng camau 1 a 2 yn safbwyntiau'r staff ynghylch a all y teulu ddiystyru dymuniadau'r ymadawedig. Nododd dau o bob pump (40%) fod hyn yn wir, ond nododd ychydig dros hanner ei fod yn anwir (54%).

Ymhlith meddygon a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys, cynyddodd y gyfran a ddywedodd fod y gosodiad hwn yn wir o tua chwarter (28%) yn ystod Cam 1 i hanner (50%) yn ystod Cam 2 – oherwydd maint sylfaen bach y grŵp hwn ni allwn ddweud ei fod yn wahaniaeth arwyddocaol, yn hytrach na hynny mae'r canfyddiad yn ddangosol. O ystyried bod y grŵp staff hwn ar y rheng flaen o ran rhoi organau, mae'n bwysig myfyrio a yw'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu'r realiti mewn adrannau damweiniau ac achosion brys/unedau therapi dwys ar lawr gwlad.




Nid yw'r neges a roddwyd i'r staff ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd os yw'r teulu yn ofidus wedi para dros amser. Bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y staff a gredai ei bod yn wir "Os yw'r teulu yn ofidus ynglŷn â'r penderfyniad i roi organau, ni fydd clinigwyr yn bwrw ymlaen â'r broses rhoi organau" o dri chwarter (74%) yn ystod Cam 1 i tua chwech o bob deg (58%) yn ystod Cam 2. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ymhlith y grwpiau staff canlynol:

- uwch feddygon ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys (57% gwir yn C2 o gymharu â 71% yn C1)
- pob nyrs (56% gwir yn C2, o gymharu â 76% yn C1)


Unwaith eto, mae'n ymddangos nad yw rhai aelodau o staff yn llwyr ddeall y rôl y gall y teulu ei chwarae o dan y system feddal o optio allan.

Nid oedd unrhyw newid yng nghyfran y staff a ddywedodd ei bod yn wir y "*Gall y teulu roi tystiolaeth bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu rhoi ei organau*". Yn ystod y ddwy don dywedodd tri chwarter y staff fod y datganiad hwn yn wir (Siart 7).



Cafod cwestiwn newydd arall ei gynnwys yn yr arolwg yn ystod Cam 2 er mwyn canfod i ba raddau roedd staff yn cytuno â'r gosodiad 'Os yw unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad i optio allan, dylai hyn gael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr y dylai teuluoedd gael eu hannog i'w dderbyn'. Cytunodd pedwar o bob pum aelod o staff (81%) y dylai teuluoedd gael eu hannog i dderbyn y penderfyniad. Roedd lefelau cytundeb yn eithaf tebyg ym mhob grŵp staff (Siart 8).

Siart 8: Teuluoedd yn cael eu hannog i dderbyn penderfyniad



B4. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiad os yw unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad i optio allan, dylai hyn gael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr y dylai teuluoedd gael eu hannog i'w dderbyn? Ydych chi'n...

Sylfaen: Pob aelod o staff (280), Meddygon teulu (57), Meddygon ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (28), Meddygon ysbyty eraill (61), Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (42), Nyrsys ysbyty eraill (56), Arweinwyr clinigol (36); y cyhoedd (1,011)* Arolwg omnibws Beaufort Mehefin 2016

3.4 Agweddau tuag at y system newydd o gydsynio i roi organau

Aseswyd agweddau tuag at y system cydsynio i roi organau drwy ofyn i'r staff ymateb i bedwar gosodiad ynglŷn â'r system feddal newydd o optio allan, gan ddefnyddio graddfa pum pwynt a oedd yn amrywio o gytuno'n gryf i anghytuno'n gryf (Siart 9). Y pedwar gosodiad oedd:

- *Bydd y 'system feddal newydd o optio allan' i Gymru yn arwain at achub mwy o fywydau*
- *Mae rhoi organau yn rhodd y bydd y 'system feddal o optio allan' yn ei thynnu ymaith*
- *Mae'r 'system feddal o optio allan' yn cadw'r rhyddid i ddewis oherwydd gall unrhyw un optio allan o roi organau os dymunant*
- *Mae'r 'system feddal o optio allan' yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth*

Roedd agweddau cyffredinol tuag at y system cydsynio i roi organau yn sefydlog rhwng y camau.


Yn y ddau arolwg, cytunodd tua phedwar o bob pum aelod o staff (C1 80%; C2 85%) y byddai'r newid i'r system cydsynio i roi organau yn golygu y byddai mwy o fywydau yn cael eu hachub. Fel yn achos Cam 1, meddygon ysbyty a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys oedd y grŵp staff a oedd leiaf tebygol o gytuno y bydd y system feddal newydd o optio allan i Gymru yn arwain at achub

mwy o fywydau (73% o gymharu ag 86% C2 ymhlith aelodau eraill o staff) – ond dylid nodi, oherwydd meintiau sylfaen bach, nad yw'r gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol a dylid ei drin fel canlyniad dangosol yn unig, er ei fod yn adleisio canlyniad Cam 1. Tueddai meddygon teulu i fynegi barn fwy cadarnhaol na thair blynedd yn ôl; yn ystod Cam 1, cytunodd 79% o feddygon teulu y *'byddai'r 'system feddal o optio allan' i Gymru yn arwain at achub mwy o fywydau'* a chynyddodd hyn i 90% yn ystod Cam 2.

Yn galonogol ddigon, ychydig iawn o staff y GIG a gytunodd fod *'rhoi organau yn rhodd y bydd y 'system feddal o optio allan' yn ei thynnu ymaith'*, dim ond un o bob pump o staff (20% C1; 23% C2) a gytunodd â'r gosodiad hwn yn y ddwy don. Mae agweddau tuag at y newid i'r system mewn perthynas â chadw'r rhyddid i ddewis hefyd wedi aros yn sefydlog; gyda mwyafrif mawr iawn yn y ddwy don (86% C1; 93% C2) yn cytuno bod *'y system feddal o optio allan yn cadw'r rhyddid i ddewis oherwydd gall unrhyw un optio allan o roi organau os dymunant'*.

Roedd y prif newid mewn agweddau yn ystod Cam 2 yn ymwneud â'r cwestiwn p'un a oedd staff yn teimlo bod *'y system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r Llywodraeth'*. Ar nodyn cadarnhaol, ymddengys bod safbwyntiau ar y mater hwn yn newid gyda chynnydd sylweddol yng nghyfran y staff a anghytunodd fod y newid yn rhoi gormod o reolaeth i'r Llywodraeth (66% C1 o gymharu â 79% C2). Cafodd y newid hwn ei ysgogi'n bennaf gan gynnydd yng nghyfran y meddygon teulu (72% C1 o gymharu ag 88% C2), meddygon ysbyty sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (63% C1 o gymharu ag 88% C2) a nyrsys (63% C1 o gymharu â 78% C2) a anghytunodd â'r gosodiad hwn.

Siart 9: Agweddau tuag at system feddal o optio allan




B2 Rwy'n mynd i ddarllen rhai gosodiadau a wnaed gan bobl am roi organau. Hoffwn i chi ddweud wrthyf i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau.
Sylfaen: Pob aelod o staff (C1: 280; C2: 268)

3.5 Ateb cwestiynau

Gofynnwyd i bob aelod o staff nodi pa mor hyderus y byddent yn teimlo yn ateb cwestiynau pe bai claf neu aelod o'r cyhoedd yn ei holi ynglŷn â'r system newydd o roi organau. Gofynnwyd iddynt nodi eu lefel hyder ar raddfa pedwar pwynt yn amrywio o 'Hyderus iawn' i 'Ddim yn hyderus o gwbl'. Mae lefelau hyder wedi cynyddu'n sylweddol ymhlith staff, gan gynyddu o lai na dau o bob tri (62%) yn ystod Cam 1 i bron dri chwarter (75%) yn ystod Cam 2. Ymhlith meddygon teulu (67% C1, yn cynyddu i 94% C2) a nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac unedau therapi dwys (65% C1 o gymharu ag 82% C2, gweler Siart 10) y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn hyder.

At hynny, dylid nodi bod nifer y staff a ddywedodd y byddent yn hyderus iawn yn ateb cwestiynau wedi dyblu dros y cyfnod o dair blynedd, ond o sylfaen isel (12% C2 o gymharu â 6% C1).

Siart 10: % yn hyderus yn ateb cwestiynau




C3. Pe bai claf neu aelod o'r cyhoedd yn gofyn cwestiwn i chi ynglŷn â'r system newydd o roi organau; pa mor hyderus y bydddech yn teimlo ynglŷn ag ateb y cwestiwn hwnnw? A fydddech yn dweud y bydddech yn teimlo'n...
 Sylfaen: Pob aelod o staff (C1: 280, C2: 268), Meddygon teulu (C1: 57; C2: 55), Meddygon ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 28; C2: 33), Meddygon ysbyty eraill (C1: 61; C2: 47), Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 42; C2: 41), Nyrsys ysbyty eraill (C1: 56; C2: 54), Arweinwyr clinigol (C1: 36; C2: 38)

Fel y gwelwyd yn ystod y don gychwynnol, roedd hyder staff yn eu gallu i ateb cwestiynau yn gysylltiedig â lefel eu gwybodaeth am y newidiadau. Roedd staff a ddywedodd eu bod yn gwybod o leiaf eithaf tipyn am y newid i'r system rhoi organau yn llawer mwy tebygol o fod yn hyderus yn ateb cwestiynau o'u cymharu â staff a ddywedodd nad oeddent yn gwybod fawr ddim neu ddim o gwbl am y newidiadau (83% o gymharu â 46% yn y drefn honno).

Yn ogystal ag asesu hyder, gofynnwyd i'r staff nodi hefyd gyda phwy y byddent yn cysylltu pe bai claf neu aelod o'r cyhoedd yn eu holi ynglŷn â rhoi organau (Siart 11). Aelod o'r tîm neu'r staff rhoi organau oedd yr enw cyswllt a grybwillwyd amlaf o hyd ac mae'r gyfran sy'n cyfeirio at y grŵp staff hwn wedi cynyddu o ychydig dros hanner (54%) yn ystod Cam 1 i bron ddau o bob tri (64%) yn ystod Cam 2. Fel y gwelwyd yn ystod y don gyntaf, roedd meddygon ysbyty a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (90%) a nyrsys arbenigol a oedd yn gweithio yn yr un lleoliad (90%) unwaith eto yn llawer mwy tebygol na grwpiau staff eraill (49%) o nodi y byddent yn cysylltu ag aelod o'r tîm rhoi organau neu'r staff rhoi organau.

Fel yn y don sylfaen, nododd tua un o bob deg (12%) na fyddent yn gwybod gyda phwy y dylid cysylltu a chynyddodd hyn i bron draean (30%) ymhlith meddygon teulu.

Siart 11: Gyda phwy y byddech yn cysylltu pe bai claf/aelod o'r cyhoedd yn eich holi ynglŷn â rhoi organau?




C4. Gyda phwy y byddech yn cysylltu pe bai claf neu aelod o'r cyhoedd am siarad â rhywun ynglŷn â'r broses rhoi organau?
Sylfaen: Pob aelod o staff (C1: 280; C2: 268)

3.6 Ffynonellau o wybodaeth

Ychwanegwyd cwestiwn newydd yn ystod Cam 2 ynglŷn â'r ffynonellau o wybodaeth am roi organau. Y ffynonellau o wybodaeth a grybwyllwyd amlaf oedd gwefannau (47%) a'r tîm/staff rhoi organau (26%). Roedd y ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd yn eithaf tebyg ymhlith yr holl grwpiau staff ac eithrio nyrsys arbenigol a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac unedau therapi dwys a oedd yn debygol iawn o grybwyll y tîm/staff rhoi organau (60% o gymharu â 26% ar gyfartaledd).

Siart 12: O ble y daw eich gwybodaeth am roi organau?




C5. Gan feddwl am ffynonellau o wybodaeth, o ble daw eich gwybodaeth am roi organau?
Sylfaen: Pob aelod o staff (C2: 268). Dim ond ffynonellau sy'n cyfrif am 8% neu'n uwch a ddangosir.

3.7 Yr effaith ar eu swydd

Gofynnwyd i bob aelod o staff i ba raddau roeddent yn teimlo y byddai'r newid i'r system cydsynio i roi organau yn effeithio ar eu swydd. Nawr bod y newid i'r system ar waith, dywedodd llai o staff y byddai'r newid yn cael effaith ar eu swydd. Yn gyffredinol, dywedodd bron naw o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd yn ystod Cam 2 (88%) na chafodd y newid unrhyw effaith ar eu swydd o gymharu ag ychydig yn fwy na hanner (57%) a ragwelodd na fyddai unrhyw effaith ar eu swydd yn ystod Cam 1. Gwelwyd y newid hwn ymhlith yr holl grwpiau staff ac eithrio arweinwyr clinigol, lle roedd y cyfrannau wedi aros yn sefydlog, gweler Siart 13.

Siart 13: Effaith y newid ar eu swydd




C1. A yw'r newid i'r system cydsynio i roi organau wedi cael effaith ar eich swydd?

Sylfaen: Pob aelod o staff (C1: 280, C2: 268), Meddygon teulu (C1: 57; C2: 55), Meddygon ysbyty mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 28; C2: 33), Meddygon ysbyty eraill (C1: 61; C2: 47), Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau therapi dwys (C1: 42; C2: 41), Nyrsys ysbyty eraill (C1: 56; C2: 54), Arweinwyr clinigol (C1: 36; C2: 38)

Gofynnwyd i'r staff a deimlai y byddai'r newid i'r system cydsynio i roi organau yn effeithio ar eu swydd sut y byddai hyn yn digwydd, yn eu barn nhw (Siart 14). Yn ystod Cam 2 dim ond 29 o ymatebwyr a ddywedodd y byddai'r newid yn cael effaith ac felly dylid trin y data hyn yn ofalus oherwydd y maint sylfaen isel iawn.

Yr effaith a grybwyllwyd amlaf oedd, fel yn ystod Cam 1, ateb cwestiynau ond gostyngodd y gyfran a grybwyllodd hyn o tua hanner i draean yn ystod Cam 2. Mewn gwrthgyferbyniad, mae nifer y staff a soniodd am fwy o organau i'w trawsblannu a'i gwneud hi'n haws siarad â theuluoedd cleifion wedi cynyddu dros y cyfnod hwn.

Siart 14: Ffyrdd y bydd y newid i'r system rhoi organau yn effeithio ar eu swydd



C2. Ym mha ffyrdd y mae'r newid i'r system rhoi organau wedi effeithio ar eich swydd?

Sylfaen: Pob un a ddywedodd y bydd y newid i'r system rhoi organau yn cael effaith ar eu swydd (C1: 105; C2: 29). Dim ond effeithiau sy'n cyfrif am 8% neu'n uwch a ddangosir.

4 Casgliadau ac Ystyriaethau

Mae'r newid i'r system cydsynio i roi organau wedi cael derbyniad da ymhlith y mwyafrif llethol o staff y GIG yng Nghymru. Mae ymwybyddiaeth o'r newid i'r system wedi cynyddu ymhlith pob grŵp staff ers Cam 1 ond gwelwyd y newid mwyaf ymhlith grwpiau staff nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses rhoi organau. Mae cefnogaeth i'r newid yn y gyfraith yn gryf a chynyddodd rhwng dwy don yr arolwg o staff.

Er bod gwybodaeth wedi'i hunanraddio am y system rhoi organau wedi cynyddu ymhlith yr holl staff ers Cam 1, gwelwyd y cynnydd mwyaf ymhlith y rhai nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys. Fodd bynnag, ymddengys bod angen mwy o addysg neu eglurhad ar staff ynglŷn â rôl y teulu yn y system feddal newydd o optio allan o roi organau. Er bod lefelau hyder wrth ateb cwestiynau ynglŷn â'r system rhoi organau wedi cynyddu'n sylweddol ers Cam 1, mae dealltwriaeth o rôl y teulu wedi dirywio rhwng y ddwy don. Felly, efallai y bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried cryfhau'r negeseuon ynglŷn â rôl y teulu i grwpiau staff penodol, gan gynnwys meddygon teulu.

Mae agweddau cyffredinol tuag at newid y system rhoi organau wedi aros yn gadarnhaol ac mae llai o staff, o gymharu â Cham 1, bellach yn teimlo bod y system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r Llywodraeth.

Mae'r mwyafrif llethol o staff wedi nodi nad yw'r newid yn y gyfraith wedi effeithio ar eu swydd, er bod cyfran sylweddol wedi disgwyl hynny pan ofynnwyd iddynt yn ystod Cam 1. I'r aelodau hynny o staff yr oedd y newid wedi effeithio arnynt, y mater a grybllwyd amlaf oedd yr amser a dreulir yn ateb cwestiynau gan gleifion a theuluoedd cleifion.

Grwpiau galwedigaethol a oedd ymhellaf i ffwrdd o'r broses rhoi organau oedd y grwpiau staff lleiaf ymwybodol, lleiaf gwybodus a lleiaf hyderus ynglŷn ag ateb cwestiynau yn ystod Cam 1, er yn ystod Cam 2, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol ar gyfer yr agweddau hyn ymhlith y rhan fwyaf o staff.

Yn gyffredinol, meddygon ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau therapi dwys sy'n tueddu i ymwneud leiaf â rhoi organau; nhw oedd leiaf tebygol o fod wedi trafod rhoi organau â'u teulu o blith yr holl grwpiau galwedigaethol. Fodd bynnag, ymhlith y grŵp hwn, bu cynnydd sylweddol mewn gwybodaeth wedi'i hunanraddio a hyder wrth ateb cwestiynau rhwng Camau 1 a 2.

ATODIAD A: Holiadur – Cam 2

Trawsblannu Organau Cam 2
272.209.0399

IV. SGRINIWR

CYFLWYNIAD 1

POB UN A ENWYD YN Y SAMPL FEL MEDDYGON TEULU, COFRESTRWYR ARBENIGEDD, UWCH FEDDYGON YSBYTY, NYRSYS ARBENIGOL, ARWEINWYR CLINIGOL, MATH O SAMPL

A gaf siarad â (enw o'r sampl)? (Wrth siarad ewch i gyflwyniad 3)

RHOWCH FANYLION O'R SAMPL

TEITL SWYDD (POB MATH O SAMPL):

ARBENIGEDD (AR GYFER NYRSYS ARBENIGOL, COFRESTRWYR ARBENIGEDD AC UWCH FEDDYGON YSBYTY)

Cewch - cysylltu

Na chewch - ddim ar gael/angen apwyntiad

Na chewch - ddim yn gweithio yno mwyach

CYFWELYDD YN GOFYN OS NAD YW'R YMATEBYDD A ENWYD YN GWEITHIO YNO MWYACH.

A gaf siarad â'r person sydd wedi cymryd ei (l)le neu sy'n gwneud y gwaith roedd yn ei wneud o'r blaen?

CYFLWYNIAD 2

RHIFAU YSBYTY – AR GYFER NYRSYS WARD CYFFREDINOL, MEDDYGON IAU S1/S2

GOFYNNWCH OS SAMPL O NYRSYS WARD CYFFREDINOL / MEDDYGON IAU S1/S2 YDYW

A wnewch chi fy nghysylltu â ward os gwelwch yn dda?

Helo, hoffwn siarad â nyrs ward/nyrs nad yw wedi arbenigo (sampl nyrsys ward) / meddyg iau, er enghraifft, swyddog preswyl neu uwch swyddog preswyl a elwir bellach yn feddygon sylfaen lefel 1 a sylfaen lefel 2 (sampl meddygon iau S1/S2)

OS OES ANGEN: A oes nyrs ward (sampl nyrsys ward) / meddyg iau (sampl S1/S2) ar gael ar hyn o bryd y gallaf siarad â nhw?

Oes – yn siarad ewch i GYFLWYNIAD 3

Nac oes – ewch i SMS

Ddim yn gwybod – ewch i SMS

CYFLWYNIAD 3 - POB YMATEBYDD

Bore da/prynhawn da/noswaith dda, fy enw i yw rwy'n gweithio i GfK NOP, sef cwmni ymchwil annibynnol. Rydym yn cynnal arolwg ar ran Llywodraeth Cymru, ymhlith aelodau allweddol o staff y GIG. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno deall yn well wybodaeth staff am un o'i meysydd polisi allweddol a'u hagweddau tuag ato. Hoffem gynnwys eich barn yn y sampl – bydd popeth a ddywedwch yn gyfrinachol i'r cwmni ymchwil ac NI fydd eich ymatebion unigol yn cael eu datgelu i neb arall, gan gynnwys Llywodraeth Cymru neu'ch Ymddiriedolaeth:

(COFRESTRWYR ARBENIGOL, MEDDYGON IAU S1/S2 AC UWCH FEDDYGON YSBYTY, NYRSYS ARBENIGOL, NYRSYS WARD CYFFREDINOL, ARWEINWYR CLINIGOL)
Practis: (MEDDYGON TEULU)

OS OES ANGEN: Mae'r astudiaeth yn edrych ar faes polisi allweddol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r GIG, er mwyn sicrhau ymateb cynrychioliadol nid ydym yn hysbysu staff o'r union faes polisi allweddol ymlaen llaw. Bydd y pwnc yn dod yn amlwg yn gynnar iawn yn yr arolwg.

S1 A fydddech yn barod i dreulio 10 munud yn ateb rhai cwestiynau?

1	Byddwn parhewch i 2/S3
2	Byddwn, gwnewch apwyntiad ewch i SMS
3	Nid wyf yn gweithio i'r GIG ar hyn o bryd
4	Mae angen mwy o sicrwydd
5	Na fyddwn

GOFYNNWCH I BOB YMATEBYDD SY'N YMDDANGOS YN BETRUSGAR (COD 4 YN S1)

Mae gen i llythyr gan Lywodraeth Cymru y gallaf ei e-bostio atoch yn esbonio pwysigrwydd yr arolwg a'r hyn y bydd yn ei gwmpasu?

Darllenwch y llythyr yn uchel

S2 Gallaf e-bostio hwn atoch nawr a threfnu amser i ffonio'n ôl? Er gwybodaeth, ni chaiff yr e-bost ei anfon yn syth ond o fewn yr ychydig ddyddiau nesaf.

Cewch	1	E-bostiwch y llythyr a chasglwch fanylion. Trefnwch amser i ffonio'n ôl	
Na – parhewch â'r arolwg	2	Parhewch	
Na – yn gwrthod	3	Ewch i SMS	

GOFYNNWCH I BOB NYRS WARD GYFFREDINOL, MEDDYG IAU S1/S2

S3 A gaf gadarnhau nad ydych wedi cymryd rhan yn yr arolwg hwn o'r blaen?

1. Nid wyf wedi cymryd rhan yr arolwg hwn o'r blaen (Parhewch)
2. Rwyf wedi cymryd rhan o'r blaen (ewch i S4)

OS NYRS WARD GYFFREDINOL, MEDDYG IAU S1/S2 SYDD WEDI CYMRYD RHAN O'R BLAEN, H.Y. COD 1 YN S3

S4 A wnewch chi fy nghysylltu â {teitl swydd} arall?

Gwnaf (ewch i gyflwyniad 2 os S1/S2 neu nyrs ward gyffredinol)

Na wnaif (ewch i SMS)

S5

GOFYNNWCH S5 OS GWNAF YN S1 COD 1 NEU S2 COD 2 A SAMPL A ENWYD YN WREIDDIOL NEU OS NYRS WARD, MEDDYG IAU S1/S2 NAD YDYNT WEDI CYMRYD RHAN O'R BLAEN H.Y. COD 1 YN S3

A gaf gadarnhau eich bod yn (rhowch deitl swydd o'r sampl neu ar gyfer Y SAMPL NYRSYS CYFFREDINOL rhowch 'nyrs ward gyffredinol/nyrs nad yw wedi arbenigo' ar gyfer Y SAMPL MEDDYGON IAU S1/S2 rhowch 'feddyg iau' fel swyddog preswyl neu uwch swyddog preswyl a elwir bellach yn feddygon Sylfaen blwyddyn 1 a Sylfaen blwyddyn 2) ar hyn o bryd?

Ydw (NYRSYS WARD EWCH I DDECHRAU'R AROLWG / MEDDYGON IAU S1S2 EWCH I S7 / MEDDYGON TEULU EWCH I CS12 / NYRSYS ARBENIGOL, COFRESTRWYR ARBENIGEDD, UWCH FEDDYGON YSBYTY, ARWEINWYR CLINIGOL EWCH I CS8)

Nac ydw (Pob un ewch i S6 ac eithrio yn achos nyrs ward, meddyg iau, yna ewch i GYFLWYNIAD 2)

Dd/g (Ewch i S6 ac eithrio yn achos nyrs ward, meddyg iau, yna ewch i GYFLWYNIAD 2)

OS NA NEU DD/G YN S5 NEU MAEN NHW WEDI CYMRYD LLE'R YMATEBYDD A ENWYD

S6 Ac a gaf gadarnhau eich bod yn dal i weithio fel...ar hyn o bryd

RHOWCH Y GEIRIAD CANLYNOL FEL Y BO'N BRIODOL I'R MATH O SAMPL

MEDDYG TEULU (RHOWCH OS SAMPL MEDDYGON TEULU YDYW)

Meddyg mewn ysbyty ar radd is na lefel meddyg ymgynghorol fel cofrestrydd arbenigedd mewn maes heblaw (SAMPL COFRESTRWYR ARBENIGEDD)

Meddyg mewn ysbyty ar radd meddyg ymgynghorol neu'n uwch (RHOWCH OS UWCH FEDDYGON)

Nyrs arbenigol mewn gofal eilaidd (nyrs ysbyty sy'n arbenigo mewn maes penodol megis adran damweiniau ac achosion brys neu anestheteg ac ati. Gall y nyrs hefyd weithio mewn maes arall megis nyrs ward) (RHOWCH OS NYRS ARBENIGOL)

Uwch Reolwr fel Cyfarwyddwr Clinigol, Cyfarwyddwr Nyrsio neu Gyfarwyddwr Meddygol (RHOWCH OS ARWEINYDD CLINIGOL)

CODAU ATEB

1.Ydw (NYRSYS WARD EWCH I DDECHRAU'R AROLWG, MEDDYGON IAU S1S2 EWCH I S7, MEDDYGON TEULU EWCH I CS12, NYRSYS ARBENIGOL, COFRESTRWYR ARBENIGEDD, UWCH FEDDYGON YSBYTY, EWCH I CS8, ARWEINWYR CLINIGOL EWCH I S11)

2. Gweithio i'r GIG mewn swydd arall (DIOLCHWCH I BAWB A GORFFENNWCH ac eithrio yn achos nyrs ward neu feddyg iau, yna ewch i GYFLWYNIAD 2)

3. Ddim yn gweithio i'r GIG mwyach (DIOLCHWCH I BAWB A GORFFENNWCH ac eithrio yn achos nyrs ward neu feddyg iau, yna ewch i GYFLWYNIAD 2)

Ddim yn gwybod (diolchwch a gorffennwch)

GOFYNNWCH OS Meddyg iau S1S2 A CHOD 1 yn CS3

S7. A beth yw teitl eich swydd bresennol?

Lefel Sylfaen blwyddyn 1 – ewch i CS9

Lefel Sylfaen blwyddyn 2 – ewch i CS9

Cofrestrydd arbenigedd – EWCH I GYFLWYNIAD 2

Swyddog preswyl – ewch i CS9

Uwch swyddog preswyl – ewch i CS9

GOFYNNWCH S8 OS MEDDYG YMGYNHOROL, COFRESTRYDD ARBENIGEDD NEU NYRS ARBENIGOL MEWN GOFAL EILAIDD YN S5 NEU S6. NEU OS MEDDYGON S1/S2 EWCH YN SYTH I CS9

S8. A gaf gadarnhau eich bod yn arbenigo mewn (rhowch o'r sampl)?

NODYN I'R CYFWELYDD: OS UNED THERAPI DWYS/UNED GOFAL DWYS/GOFAL CRITIGOL A RHYWBETH ARALL YW'R ARBENIGEDD CADARNHEWCH EU BOD YN ARBENIGO NEU'N GWEITHIO GYDA CHLEIFION MEWN UNED THERAPI DWYS/UNED GOFAL DWYS/GOFAL CRITIGOL. OS YDYN COFNODWCH FEL ATEB CADARNHAOL.

Ydw (ARWEINWYR CLINIGOL, MEDDYGON YSBYTY A NYRSYS ARBENIGOL EWCH I S11)

Ydw, rwy'n arbenigo yn y maes hwn ond rwyf hefyd yn gweithio mewn maes arall (er enghraifft, fel nyrs ward) (ARWEINWYR CLINIGOL, MEDDYGON YSBYTY A NYRSYS ARBENIGOL EWCH I S11)

Nac ydw (Ewch i CS9 **AC EITHRIO YN ACHOS MEDDYGON YMGYNHOROL, COFRESTRWYR ARBENIGEDD NEU NYRSYS ARBENIGOL SY'N GWEITHIO MEWN ADRANNAU DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYD, UNEDAU GOFAL DWYS/UNEDAU THERAPI DWYS/GOFAL CRITIGOL ewch i S8A)**)

Ddim yn gwybod (Ewch i CS9 **AC EITHRIO YN ACHOS MEDDYGON YMGYNHOROL, COFRESTRWYR ARBENIGEDD NEU NYRSYS ARBENIGOL SY'N GWEITHIO MEWN ADRANNAU DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYD, UNEDAU GOFAL DWYS/UNEDAU THERAPI DWYS/GOFAL CRITIGOL ewch i S8a)**)

OS NA NEU DD/G YN S8 AC A MEDDYGON YMGYNHOROL, COFRESTRWYR ARBENIGEDD NEU NYRSYS ARBENIGOL SY'N GWEITHIO MEWN ADRANNAU DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYD, UNEDAU GOFAL DWYS/UNEDAU THERAPI DWYS/GOFAL CRITIGOL

S8a Ac a ydych yn arbenigo neu'n gweithio mewn unrhyw un o'r meysydd canlynol:

Adran Damweiniau ac Achosion Bryd – ewch i S11

Uned Gofal Dwys/Uned Therapi Dwys/Gofal Critigol – ewch i S11

Trawsblannu Organau – ewch i ddechrau'r arolwg

Dim un o'r rhain – diolchwch a gorffennwch

OS NA NEU DD/G YN CS8 AC EITHRIO YN ACHOS MEDDYGON YMGYNHOROL, COFRESTRWYR ARBENIGEDD NEU NYRSYS ARBENIGOL SY'N GWEITHIO MEWN ADRANNAU DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYD, UNEDAU GOFAL DWYS/UNEDAU THERAPI DWYS/GOFAL CRITIGOL NEU AR GYFER S1/S2 POB COD YN S7 AC EITHRIO COFRESTRYDD ARBENIGEDD

CS9. Ym mha faes rydych yn arbenigo ar hyn o bryd?

YSGOGWCH AR SAIL Y RHAG-GODAU. CANIATEWCH GODAU LLUOSOG

1. Adran Damweiniau ac Achosion Bryd
2. Anaestheteg
3. Cardïoleg
4. Dermatoleg
5. Radioleg Ddiagnostig
6. Endosgopi
7. Y glust, trwyn a gwddf
8. Gastroenteroleg
9. Meddygaeth Gyffredinol
10. Llawfeddygaeth Gyffredinol
11. Gynecoleg
12. Uned Gofal Dwys/Uned Therapi Dwys/Gofal Critigol
13. Delweddu
14. Niwroleg
15. Niwroffisïoleg
16. Niwroradioleg
17. Obstetreg a Gynecoleg
18. Offthalmoleg
19. Llawdriniaeth ar y geg
20. Orthopedeg
21. Trawsblannu Organau
22. Meddygaeth Liniarol
23. Radioleg
24. Rheumatoleg
25. Trawma ac Orthopedeg

26. Wroleg
 27. Arall – rhowch fanylion
 28. Dd/g (Ewch i S10) (OS Meddyg iau S1S2 ewch i GYFLWYNIAD 2)
 29. Gwrthod (Diolchwch a gorffennwch) (OS Meddyg iau S1S2 ewch i GYFLWYNIAD 2)
 CODAU 1-26 EWCH I DDECHRAU'R AROLWG

GOFYNNWCH I BOB ARWEINYDD CLINIGOL MEDDYG YSBYTY A NYRS ARBENIGOL

S11. A gaf gadarnhau a ydych byth yn ymwneud â chasglu organau i'w trawsblannu?

Ydw
 Nac ydw
 Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH I BOB MEDDYG TEULU

CS12. Ers faint rydych wedi cymhwyso'n feddyg teulu?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

CYFWELYDD: OS NAD YW'R YMATEBYDD YN GWYBOD GOFYNNWCH AM AMCANGYFRIF

Llai na 2 flynedd yn ôl
 2 flynedd ond llai na 5 mlynedd yn ôl
 5 mlynedd ond llai na 10 mlynedd yn ôl
 10 mlynedd ond llai nag 20 mlynedd yn ôl
 20 mlynedd ond llai na 30 mlynedd yn ôl
 30 mlynedd neu fwy
 (Ddim yn gwybod)

V. PRIF HOLIADUR

YMWYBYDDIAETH O NEWID

Sylfaen: pob ymatebydd

Pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddf i newid y system rhoi organau i system 'feddal o optio allan' a ddaeth i rym ar ddiwedd 2015. O fis Rhagfyr 2015 mae pobl wedi cael cyfle i 'optio allan' o roi organau yn ffurfiol. Os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny, ar ôl cael y cyfle, yna caiff hyn ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac un y caiff teuluoedd eu hannog yn sensitif i'w dderbyn. Mae'r gyfraith yn caniatáu i aelodau'r teulu wrthwynebu rhoi organau os ydynt yn gwybod na fyddai'r ymadawedig wedi dymuno rhoi cydsyniad. Mae'r cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr yn parhau i'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

A 1

Cyn heddiw, a oeddech yn ymwybodol o'r newid hwn i'r system cydsynio i roi organau yng Nghymru?

Dim ond un ateb sy'n bosibl.

- Oeddwn
- Nac oeddwn
- Ddim yn gwybod

Sylfaen: PAWB A DDYWEDODD OEDDWN YN A1. ERAILL EWCH I B1

A 2

Faint rydych yn ei wybod am y newidiadau i'r system cydsynio i roi organau yng Nghymru? A fyddech chi'n dweud ...

DARLLENWCH UN COD YN UCHEL

Dim ond un ateb sy'n bosibl.

Cryn dipyn
 Eithaf tipyn
 Ddim llawer

B CEFNOGAETH I'R POLISI A GWYBODAETH AMDANO

Sylfaen: pob ymatebydd

B1

Pa un o'r gosodiadau hyn ynglŷn â newidiadau i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n adlewyrchu'ch barn orau?

DARLLENWCH YN UCHEL

Dim ond un ateb sy'n bosibl

OS OES ANGEN: Mae pobl yn cael cyfle i 'optio allan' o roi organau yn ffurfiol. Os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny, ar ôl cael y cyfle, yna caiff hyn ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac un y caiff teuluoedd eu hannog yn sensitif i'w dderbyn. Bydd y cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr yn parhau

Rwyf o blaid y newid deddfwriaethol hwn
Rwyf yn erbyn y newid deddfwriaethol hwn
Mae angen mwy o wybodaeth arnaf i benderfynu
Ddim yn gwybod

B2

Rwy'n mynd i ddarllen rhai gosodiadau a wnaed gan bobl am roi organau. Hoffwn i chi ddweud wrthyf i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau:

(Y CYHOEDD)

DARLLENWCH YN UCHEL

Dim ond un ateb sy'n bosibl ar gyfer pob gosodiad

- Bydd y 'system feddal newydd o optio allan' i Gymru yn arwain at achub mwy o fywydau
- Mae rhoi organau yn rhodd y bydd y 'system feddal o optio allan' yn ei thynnu ymaith
- Mae'r 'system feddal o optio allan' yn cadw'r rhyddid i ddewis oherwydd gall unrhyw un optio allan o roi organau os dymunant
- Mae'r 'system feddal o optio allan' yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth

Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf

B3

Rwy'n mynd i ddarllen rhai gosodiadau am rôl y teulu o ran rhoi organau o dan y 'system feddal newydd o optio allan' lle nad yw'r ymadawedig wedi optio allan. Dywedwch wrthyf i ba raddau y mae pob gosodiad yn wir, yn eich barn chi.

(Y CYHOEDD)

DARLLENWCH YN UCHEL

Dim ond un ateb sy'n bosibl ar gyfer pob gosodiad

- Ni fydd y teulu yn chwarae unrhyw rôl yn y broses rhoi organau
- Gall y teulu roi tystiolaeth bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu rhoi ei organau ond nad oedd wedi mynd ati i gofrestru yn ystod ei fywyd
- Gall y teulu ddiystyru dymuniadau'r ymadawedig
- Os yw'r teulu yn ofidus ynglŷn â'r penderfyniad i roi organau, ni fydd clinigwyr yn bwrw ymlaen â'r broses

Yn sicr yn wir
Yn wir fwy na thebyg
Ddim yn wir fwy na thebyg
Yn sicr, ddim yn wir

Ddim yn gwybod

B4

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiad os yw unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad i optio allan, dylai hyn gael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr y dylai teuluoedd gael eu hannog i'w dderbyn? Ydych chi'n...

DARLLENWCH YN UCHEL

Dim ond un ateb sy'n bosibl ar gyfer pob gosodiad

Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

C EFFAITH AR Y SWYDD

Sylfaen: POB UN SY'N GWYBOD RHYWBETH AM ROI ORGANAU (CRYN DIPYN/EITHAF TIPYN/DDIM LLAWER YN A2)

C1

A yw'r newid i'r system cydsynio i roi organau wedi cael effaith ar eich swydd?

CODIWCH AR SAIL Y RHAG-GODAU. OS YDY GOFYNNWCH AI CRYN DIPYN NEU EITHAF TIPYN YW HYNFY

Dim ond un ateb sy'n bosibl

Ydy – cryn dipyn
Ydy – eithaf tipyn
Nac ydy (dim effaith ar swydd)
Ddim yn gwybod

Sylfaen: POB UN SY'N GWYBOD AC A DDYWEDODD GRYN DIPYN NEU EITHAF TIPYN YN C1

C2

Ym mha ffyrdd y mae'r newid i'r system rhoi organau wedi effeithio ar eich swydd?

PEIDIWCH AG YSGOGI; CODIWCH AR SAIL Y RHAG-GODAU

Caniateir ymatebion lluosog

Amser a dreulir yn ateb cwestiynau gan gleifion am y newid/system newydd
Amser a dreulir yn ateb cwestiynau gan deuluoedd cleifion am y newid/system newydd
Byddaf yn gofalu am fwy o gleifion sy'n rhoi organau cyn casglu'r organau
Bydd yn ei gwneud yn haws siarad â pherthnasau cleifion ynglŷn â'r posibilrwydd o roi organau
Bydd yn creu mwy o waith i mi (heb roi manylion)
Byddaf yn ymwneud/ymgymryd â mwy o drawsblaniadau
Arall (rhowch fanylion)
Ddim yn gwybod

Sylfaen: pob ymatebydd

C3

Pe bai claf neu aelod o'r cyhoedd yn gofyn cwestiwn i chi ynglŷn â'r system newydd o roi organau; pa mor hyderus y byddech yn teimlo ynglŷn ag ateb y cwestiwn hwnnw? A fydddech yn dweud y byddech yn teimlo'n...

DARLLENWCH YN UCHEL. UN COD

Dim ond un ateb sy'n bosibl

Hyderus iawn
Eithaf hyderus
Ddim yn hyderus iawn
Ddim yn hyderus o gwbl
Ddim yn gwybod

Sylfaen: pob ymatebydd

C4

Gyda phwy y byddech yn cysylltu pe bai claf neu aelod o'r cyhoedd am siarad â rhywun ynglŷn â'r broses rhoi organau?

PEIDIWCH AG YSGOGI; CODIWCH AR SAIL Y RHAG-GODAU

Fy rheolwr
Nyrs Arbenigol ym maes Rhoi Organau
Nyrsys Arbenigol sy'n gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys neu uned therapi dwys
Arweinydd Clinigol ym maes Rhoi Organau
Meddyg ym maes rhoi neu drawsblannu organau
Meddyg sy'n gweithio mewn adran damweiniau ac achosion brys neu uned therapi dwys
Neb. Byddwn yn ateb eu cwestiynau fy hun
Cydweithiwr arall (rhowch fanylion)
Ni fyddwn yn gwybod gyda phwy y dylwn gysylltu

Sylfaen: pob ymatebydd

C5

Gan feddwl am ffynonellau o wybodaeth, o ble daw eich gwybodaeth am roi organau?

PEIDIWCH AG YSGOGI; CODIWCH AR SAIL Y RHAG-GODAU

Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblannu'r GIG
Llywodraeth Cymru
Fy nghyflogwr
Cyrff proffesiynol e.e. y Coleg Nyrsio Brenhinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac ati
Bwrdd Iechyd Lleol (mewnwyd, cylchlythyr ac ati)
Teledu
Gwefan(nau)
Cyfryngau Cymdeithasol
Papur(au) newydd
Taflenni a Ffeithlenni
Poster(i)
Hysbysebion
Arall
Ddim yn gwybod

D WEDI'I DDILEU

E COFRESTRU

Sylfaen: pob ymatebydd

Hoffwn nawr ofyn rhai cwestiynau ynglŷn â'ch barn am roi organau.

E1

Gan fod y system newydd o optio allan wedi'i chyflwyno bellach, p'un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch statws mewn perthynas â rhoi organau orau?

DARLLENWCH YN UCHEL. UN COD

(Y CYHOEDD)

Dim ond un ateb sy'n bosibl

- 01: Wedi cofrestru i optio i mewn
- 02: Wedi cofrestru i optio allan
- 03: Dim byd – gan fy mod yn fodlon i gydsyniad tybiedig fod yn gymwys
- 04: Dim byd – ond rwy'n ystyried yr opsiynau sydd gennyf o hyd
- 05: Dim byd – ddim wedi meddwl am y peth eto

e: pob ymatebydd

E2

A ydych erioed wedi trafod eich penderfyniad ynglŷn â dod yn rhoddwr organau ag aelod o'r teulu?

Ydw
Nac ydw

F DEMOGRAFFEG

Sylfaen: pob ymatebydd

Ac yn olaf hoffwn ofyn rhai cwestiynau am eich swydd.

F1

Ers faint rydych wedi cymhwyso'n <feddyg / nyrs > ?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

Llai na 2 flynedd yn ôl
2 flynedd ond llai na 5 mlynedd yn ôl
5 mlynedd ond llai na 10 mlynedd yn ôl
10 mlynedd ond llai na 20 mlynedd yn ôl
20 mlynedd ond llai na 30 mlynedd yn ôl
30 mlynedd neu fwy
(Ddim yn gwybod)

Sylfaen: pob ymatebydd

F2

Ers faint rydych wedi bod yn gweithio i'r GIG yn eich rôl bresennol?

DARLLENWCH YN UCHEL YN ÔL YR ANGEN

Llai na 2 flynedd
2 flynedd ond llai na 5 mlynedd
5 mlynedd ond llai na 10 mlynedd
10 mlynedd ond llai nag 20 mlynedd
20 mlynedd ond llai na 30 mlynedd
30 mlynedd neu fwy
(Ddim yn gwybod)

Sylfaen: pob ymatebydd

F3

Ac yn olaf a oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r system rhoi organau? PENAGORED

ATODIAD B – Llythyr sicrwydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1 Tachwedd 2016

At bwy bynnag a fynno wybod

Parthed: Arolwg Llywodraeth Cymru o staff y GIG

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cael darlun gwell o safbwyntiau staff ynghylch un o'r prif feysydd polisi a'u gwybodaeth ynghylch y maes polisi hwn. Felly, rydym wedi comisiynu arolwg i ddeall barn ystod eang o staff o wahanol raddfeydd a swyddi ledled Cymru. Bydd yr astudiaeth yn holi am safbwyntiau clinigwyr a staff nyrsio. Er mwyn sicrhau ymateb diduedd, dylwn nodi nad oes sôn am gynnwys yr astudiaeth yn y llythyr hwn. Nid oes sôn am gynnwys yr astudiaeth chwaith cyn y bydd rhywun yn cysylltu â staff (h.y. dymunwn osgoi cael ymatebion gan y rheini sydd â buddiant yn y pwnc yn unig).

Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn helpu Llywodraeth Cymru i gynllunio'n well ei dulliau o gyfathrebu â staff y GIG yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth berthnasol.

Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal ar ffurf cyfweiliad ar y ffôn. Bydd y gwaith yn cael ei wneud ar ein rhan gan GfK, asiantaeth ymchwil annibynnol. Bydd GfK yn cysylltu â sampl o staff o rannau amrywiol sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Cynhelir y gwaith maes rhwng 7 Tachwedd a 16 Rhagfyr. Disgwylir i'r cyfweiliadau bara am tua 10 munud.

Mae eich safbwyntiau yn bwysig i ni a byddem yn gwerthfawrogi'ch cefnogaeth ar gyfer yr ymchwil hon. Os nad ydych chi gael i gwblhau'r cyfweiliad pan y'ch gelwir, bydd y cwmni'n fodlon gwneud apwyntiad i ffonio yn ôl ar adeg arall sy'n fwy cyfleus.

Mae pob ymateb yn gwbl gyfrinachol. Hefyd, caiff y data ei gadw'n ddiogel a'i brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae GfK yn gweithredu o fewn Cod Ymarfer y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

Os oes gennych gwestiynau am yr ymchwil hon cysylltwch â Janine Hale yn Llywodraeth Cymru ar 029 2082 6539 neu e-bostiwrch Janine.hale@wales.gsi.gov.uk; neu Sarah McHugh yn GfK ar 020 7890 9379 neu e-bostiwrch nhsstaffsurveywales@gfk.com.

Gobeithio y byddwch yn gallu ein cynorthwyo gyda'r prosiect ymchwil pwysig hwn.

Yn gywir

Karin Phillips
Dirprwy Gyfarwyddwr
Is-Adran Cyflyrau Iechyd Difrifol
Llywodraeth Cymru